# Gwella Gwasanaethau Gofal yng Nghymru

Arolygiaeth Gofal **Cymru**
Care Inspectorate **Wales**

## Crynodeb o'n Hadroddiad Blynyddol ar gyfer 2024 - 2025



# Helo

Ni yw Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC).

## Beth rydym ni'n ei wneud

**Rydym ni'n cofrestru ac yn gwirio ansawdd y gwasanaethau gofal yng Nghymru:**

- Gwasanaethau cartrefi gofal i oedolion a phlant
- Gwasanaethau cymorth cartref
- Gwasanaethau lleoli oedolion
- Gwasanaethau llety diogel
- Gwasanaethau maethu a mabwysiadu
- Canolfannau teulu preswyl
- Gwasanaethau eiriolaeth (sy'n helpu pobl i gael eu clywed)
- Gwarchodwyr plant a darparwyr gofal dydd
- Ysgolion preswyl arbennig

**Rydym hefyd yn gwirio ansawdd:**

- Ysgolion preswyl a cholegau i fyfyrwyr dan 18 oed
- Maethu a mabwysiadu gan yr awdurdod lleol

## Gyda phwy rydym ni'n gweithio

Rydym ni'n gweithio gydag eraill i wneud gofal yn well i bawb yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys:

- Estyn — sy'n gwirio addysg
- Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
- Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Fawrhydi, Gwasanaethau Tân ac Achub.

## Yr hyn rydym ni'n edrych amdano

Pan fyddwn ni'n archwilio gwasanaethau, rydym ni'n edrych ar wahanol themâu i ddeall beth sy'n mynd yn dda a beth allai fod yn well. Mae hyn yn cynnwys pethau fel:

- Pa mor dda mae'r gwasanaeth yn cael ei redeg (arweinyddiaeth)
- Sut mae plant ac oedolion yn cael eu cadw'n ddiogel (diogelu)
- Pa mor dda mae staff yn cael eu hyfforddi a'u cefnogi
- Sut mae hawliau, lleisiau a lles pobl yn cael eu parchu

**Os nad yw rhywbeth yn iawn, rydym ni'n cymryd camau i'w helpu i wella.**



**Yn yr adroddiad hwn, byddwn yn dweud wrthych chi beth wnaethom ni gyda gwasanaethau plant a phobl ifanc yn ystod 2024—2025.**

Gallwch ddarllen yr adroddiad llawn yma:
arolygiaethgofal.cymru/adroddiad-blynyddol-2024-2025

# Y darlun mawr yng Nghymru

Mae'r rhan fwyaf o bobl yng Nghymru yn cael gofal a chefnogaeth dda — ac mae hynny'n newyddion gwych. Ond mae rhai heriau mawr o hyd mae gwasanaethau gofal yn ceisio delio â nhw.

Dyma beth sy'n mynd ymlaen:

- Mae'n anoddach dod o hyd i staff a'u cadw mewn rhai gwasanaethau.
- Mae angen help ar fwy o bobl, ond mae gwasanaethau dan bwysau.
- Yn aml nid oes digon o weithwyr gofal cartref yn yr ardaloedd gwledig.
- Nid oes digon o ofalwyr maeth na chartrefi plant yn y mannau cywir.
- Nid oes digon o arian ac adnoddau bob amser i ateb y galw.

Mae hyn yn ei gwneud hi'n anodd i reolwyr ac arweinwyr gynllunio'n iawn a rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar bobl, pan fydd ei angen arnynt.

## Newydd eleni: Sgoriau

Rydym ni wedi bod yn paratoi i gyflwyno graddfeydd ar gyfer cartrefi gofal a gwasanaethau cymorth cartref. Mae hyn yn golygu y bydd pobl yn gallu gweld pa mor dda mae gwasanaeth yn gwneud mewn ffordd glir a syml.

Bydd gwasanaethau'n cael eu graddio fel:


**Rhagorol** | **Da** | **Digonol** | **Gwael**

Mae hyn yn helpu pobl i ddewis y gofal cywir drostyn nhw eu hunain neu eu teulu. Mae hefyd yn helpu gwasanaethau i wybod beth maen nhw'n ei wneud yn dda — a maen nhw angen gweithio arno. Bydd yn cymryd amser i sgorio pob gwasanaeth, ond rydym ni eisoes wedi dechrau.

## Yr hyn rydym ni wedi bod yn ei wneud (2020-2025)

Dros y pum mlynedd diwethaf, rydym ni wedi gwneud rhai newidiadau pwysig i'r ffordd rydym ni'n gweithio.

- Rydym ni wedi gwella ein gwasanaethau ar-lein.
- Rydym ni wedi gwella ein gwasanaeth cwsmeriaid - eleni fe wnaeth ein tîm drin **10,000+** o alwadau a **60,000+** o negeseuon e-bost.
- Rydym ni wedi hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant fel bod pawb yn cael cefnogaeth, yn cael eu trin yn deg a gyda pharch.



# Gwrando a chynnwys pobl

Rydym ni'n credu mai'r ffordd orau o wella gofal yw trwy wrando ar bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, eu teuluoedd, a'r gweithwyr proffesiynol a'r staff sy'n rhoi gofal.

## Siarad am wasanaethau cofrestredig:

Cwblhaodd **6,995** o bobl arolygon adborth

- **588** gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau
- **2,213** gan aelodau o'r teulu, gofalwyr neu ffrindiau
- **3,980** gan staff
- **214** gan weithwyr proffesiynol

## Siarad am wasanaethau awdurdodau lleol:

Cymerodd **1,492** o bobl ran

- **108** gan weithwyr proffesiynol
- **898** gan staff
- **486** gan bobl sy'n defnyddio gwasanaethau

## Digwyddiad ar-lein

Fe wnaethom ni gynnal **15 digwyddiad ar-lein** ar gyfer pobl sy'n rhedeg gwasanaethau gofal. Fe wnaeth **dros 1,600 o bobl** ymuno i rannu eu barn a dysgu gyda'i gilydd.

## Gweithio gydag eraill

Fe wnaethom weithio'n agos gyda'n Bwrdd Cynghori Cenedlaethol. Maen nhw'n grŵp o weithwyr proffesiynol sy'n rhoi cyngor ac yn helpu i sicrhau bod lleisiau pobl yn cael eu clywed.

Fe wnaethom ni hefyd weithio gyda darparwyr gofal ac arolygwyr i gyd-ddylunio system sgorio newydd ac ysgrifennu ein cynllun 5 mlynedd nesaf.



# Rhoi mwy o gyfleoedd i bobl gymryd rhan

Nid yw pawb yn ei chael hi'n hawdd llenwi arolwg neu siarad. Dyna pam rydym ni wedi bod yn chwilio am ffyrdd gwell o wrando - yn enwedig i bobl nad ydyn nhw'n cael eu clywed bob amser.

Rydym ni wedi ei gwneud hi'n haws i bobl ddweud wrthym ni beth maen nhw'n ei feddwl — er mwyn i ni allu dysgu o'u profiadau a dal i wella.

## Sesiynau gwrando

Eleni, fe wnaethom brofi syniad newydd mewn 10 awdurdod lleol. Fe wnaethom ni sefydlu sesiynau lle gallai pobl siarad â ni wyneb yn wyneb am y gofal maen nhw'n ei gael. Fe wnaeth hyn ein helpu ni i ddeall y materion mae pobl yn eu hwynebu a p'un a yw gwasanaethau'n diwallu eu hanghenion.

## Arolygwyr Cyfoedion: pobl â phrofiad go iawn

Mae gennym ni **4** o arolygwr cyfoedion — mae'r rhain yn bobl sydd wedi derbyn gofal eu hunain. Maen nhw:

- yn ein helpu ni i ddeall pethau'n well
- yn ymuno â'n timau arolygu
- yn gweithio gyda gwasanaethau i wneud pethau'n well.



# Yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymru

Mae'r Gymraeg yn rhan o bwy ydym ni yng Nghymru. Dylid ei ddathlu a'i gefnogi.

## Yn ein gwaith:

- rydym ni'n defnyddio'r Gymraeg yn ystod arolygiadau
- rydym ni'n cefnogi ein staff i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg
- mae gennym ni hyrwyddwyr iaith Gymraeg.

Pan fyddwn ni'n archwilio gwasanaethau, rydym ni'n edrych ar ba mor dda ydyn nhw:

- am gynnig dewis i bobl ddefnyddio'r Gymraeg
- am hyrwyddo traddodiadau a hunaniaeth Gymreig.

**Newyddion da:** mae mwy a mwy o wasanaethau yn gwneud hyn.

***"Pan ges i wybod bod fy ŵyr yn mynd i gartref preswyl, roeddwn i'n dorcalonnus. Ond dyma'r peth gorau allai fod wedi digwydd iddo. Mae'n dawel, mae'n hapus ac mae'n caru'r staff. Rwy'n teimlo eu bod nhw wir yn ei ddeall. Rwy'n teimlo fy mod yn rhan o bethau ac yn gwybod ei fod yn cael y gofal gorau. Alla i ddim eu diolch digon – tîm anhygoel."***

# Gofal i blant a phobl ifanc

## Gwasanaethau cofrestredig

Bellach mae **446** o wasanaethau cofrestredig ar gyfer plant a phobl ifanc.

- **5** Gwasanaethau mabwysiadu
- **20** Gwasanaethau mabwysiadu awdurdodau lleol
- **350** Gwasanaethau cartrefi gofal plant
- **2** Gwasanaethau eiriolaeth
- **22** Gwasanaethau maethu
- **3** Colegau addysg bellach
- **12** Ysgolion preswyl
- **22** Gwasanaethau maethu awdurdodau lleol
- **3** Ysgolion arbennig preswyl
- **4** Canolfannau teulu preswyl
- **2** Gwasanaethau preswyl ysgolion arbennigs
- **1** Gwasanaeth llety diogel



## Cartrefi gofal

Fe wnaethom ni gofrestru **48** o gartrefi plant newydd eleni.

Fe wnaeth **8** o gartrefi gofal ganslo eu cofrestriad a chau.

Mae digon o gartrefi gofal mewn rhai ardaloedd — nid oes digon gan eraill.

Cafodd **78%** o gartrefi plant eu sgorio'n dda neu'n rhagorol.

## Stori Mike (enw wedi'i newid)

Cafodd Mike ei wrthod gan ei deulu a'i gymuned oherwydd ei rywioldeb a'i hunaniaeth rhywedd. Heb unrhyw le diogel i droi, daeth i ofal. Ar y dechrau, roedd yn dawel ac yn ansicr faint ohono'i hun y gallai ei fynegi a'i ddangos.

Dros amser, fe wnaeth staff helpu Mike i deimlo'n ddiogel, ei barchu, ac yn rhydd i fod pwy ydyw mewn gwirionedd. Fe wnaethant ei gysylltu â grwpiau LHDTCA+ lleol a gwahodd Hyrwyddwr LHDTCA+ i ymweld. Fe wnaeth cael y lleoedd hynny i siarad yn agored ac archwilio ei hunaniaeth helpu Mike i fagu hyder a dechrau gweld ei hun mewn goleuni mwy cadarnhaol.

## Arolygu gwasanaethau cofrestredig

Fe wnaethom **219** o archwiliadau - **31** yn fwy na'r flwyddyn flaenorol.

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn gwneud yn dda ac yn gwneud gwahaniaeth mawr i fywydau plant.

## Arolygu gwasanaethau awdurdodau lleol

Fe wnaethom archwilio gwasanaethau plant yn awdurdod lleol Sir Gaerfyrddin.

Fe wnaethom hefyd gynnal archwiliad dilynol ar Sir Ddinbych.

Fe wnaethom wrando ar weithwyr proffesiynol, teuluoedd a phlant, ac fe wnaethom ganfod:

- arweinyddiaeth gref
- staff gofalgar, medrus
- roedd plant yn teimlo fel eu bod yn rhan o'u teulu maeth
- bod plant yn cael help i ddeall eu stori a chadw perthnasoedd pwysig.

Fe wnaethom hefyd weld ffyrdd newydd o wella gwasanaethau. Er enghraifft:

Mewn un gwasanaeth, cefnogwyd staff i ddysgu Cymraeg er mwyn iddynt allu siarad Cymraeg â phobl a helpu i ddathlu diwylliant Cymreig.

Cefnogwyd plant mewn gofal maeth i ddeall eu stori a'u helpu i gadw perthnasoedd pwysig.

## Arolygu cymorth iechyd meddwl

Fe wnaethom ni ddarganfod bod cymorth iechyd meddwl wedi gwella. Ond mae galw mawr ar y gwasanaethau hyn ac mae llai o arian yn heriol. Mae angen i blant a phobl ifanc gael cymorth a chefnogaeth yn gynt o hyd.



***"Rwy'n teimlo bod AGC yn meithrin diwylliant o wella. Maen nhw'n gweld yr hyn rydym yn ei wneud yn dda, ac yn rhoi adborth da ar bethau y gellir eu gwella."***

## Delio â phryderon

**Fe wnaethom dderbyn 205 o adroddiadau am bryderon am wasanaethau plant.**

Mewn 5% fe wnaethom eu harchwilio yn gynt nag arfer.

5%

Yn 58% fe wnaethom ni eu cyfeirio i'w hymchwilio.

58%

Yn 9%, fe wnaethom ni rannu gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill.

9%

Yn 36% fe wnaethom ni ymchwilio ond penderfynwyd peidio â chymryd camau pellach.

36%

## Cadw plant yn ddiogel

Rydym ni'n gweithio gyda darparwyr gofal, cynghorau, a'r heddlu i helpu i gadw plant yn ddiogel.

Eleni:

Roedd **2,902** o adroddiadau o blant yn mynd ar goll. Mae hynny'n fwy na'r flwyddyn o'r blaen.

**Nid yw'r cynnydd mewn pryderon yn golygu bod pethau'n waeth.**

**Mae'r gwasanaethau'n gwella.** Mae staff yn sylwi ar bryderon ac yn adrodd yn amlach, sy'n helpu i amddiffyn plant.

Fe wnaethom ni edrych i mewn i **598** o adroddiadau o gamdriniaeth.

Fe wnaethom ni wneud **854** o ymchwiliadau ynghylch diogelwch plant.

Fe wnaethom ni edrych ar **142** o achosion posibl o gamfanteisio ar blant.

Fe wnaethom weithio gyda'r heddlu ar **1,480** o achosion.



# Gofal plant a chwarae

Eleni cafwyd **3,228** o wasanaethau gofal plant a chwarae ledled Cymru.

Gyda'i gilydd roedden nhw'n cynnig dros **79,000** o leoedd i blant.

**1,417** Gwasanaethau gwarchod plant

**13** Gwasanaethau meithrinfa

**313** Gwasanaethau gofal y tu allan i'r ysgol

**34** Gwasanaethau darpariaeth chwarae mynediad agored

**1,121** Gwasanaethau gofal dydd llawn

**330** Gwasanaethau gofal dydd sesiynol



## Arolygu gwasanaethau gofal plant a chwarae

Fe wnaethom ni fwy o arolygiadau a chyfarfodydd na'r flwyddyn o'r blaen — cyfanswm o **946** Fe wnaethom ni weithio gydag Estyn ac arolygu **89** o wasanaethau gyda'n gilydd eleni.

Mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn darparu lefel dda o ofal i blant, gyda **80%** o'r sgoriau a ddyfarnwyd yn rhagorol neu'n dda.

Mae gwasanaethau gofal plant a chwarae yn gwneud gwaith pwysig. Mae'r rhan fwyaf yn ddiogel ac yn cael eu rhedeg yn dda, ond maen nhw dan bwysau.

## Delio â phryderon

**Fe wnaethom dderbyn 481 o bryderon ynghylch gwasanaethau gofal plant a chwarae.**

Yn 25% fe wnaethom ni eu harchwilio yn gynt nag arfer.

**25%**

Mewn 30% fe wnaethom ni eu cyfeirio i’w hymchwilio.

**30%**

Yn 7% fe wnaethom ni rannu gwybodaeth gyda gwasanaethau eraill.

**7%**

Yn 39% fe wnaethom ni ymchwilio ond penderfynwyd peidio â chymryd camau pellach.

**39%**

*“Mae’r holl blant yn hapus ac yn ddiogel yn y feithrinfa. Mae fy mhlentyn wedi datblygu perthnasau gwych â’r merched sy’n gofalu amdani ac yn mwynhau mynd i’r feithrinfa yn fawr.”*

## Robinod Ifanc yn cyfarfod Tylluanod Doeth

Mae meithrinfa yng Nghil-y-coed bellach yn mynd â phlant ifanc i ymweld â grŵp dementia lleol bob wythnos.

Mae’r ymweliadau hyn yn helpu i feithrin cyfeillgarwch rhwng plant ifanc a phobl hŷn, gan ddangos y gall dysgu a chysylltiad ddigwydd ar unrhyw oedran.



# Gofal i oedolion

## Gwasanaethau cofrestredig

Mae **1,794** o wasanaethau oedolion cofrestredig yng Nghymru.

**1,018**
o gartrefi gofal i oedolion

**750**
o wasanaethau cymorth gofal cartref i helpu pobl i fyw bywydau annibynnol

**18**
o gartrefi gofal i oedolion a phlant gyda'i gilydd

**8**
Gwasanaethau lleoli oedolion



## Cartrefi gofal

Yn 2024–2025:

- fe wnaeth **63** o gartrefi gofal gau neu newid darparwyr
- roedd sgôr **84%** o gartrefi gofal a chymorth cartref yn 'dda' neu'n 'rhagorol'.

Erbyn hyn mae mwy o gartrefi gofal sy'n cynnig cymorth nyrsio na rhai nad ydynt yn gwneud hynny.

## Gwasanaethau gofal cartref

Fe wnaeth **55** o wasanaethau newydd ddechrau ledled Cymru. Mae mwy a mwy o bobl eisiau aros yn eu cartrefi eu hunain am gyhyd â phosibl.

Nid oes digon o wasanaethau gan rai ardaloedd gwledig, ond mae cynghorau lleol yn rhoi cynnig ar syniadau newydd i lenwi'r bwlch.



*"Byddwn yn fwy na pharod i argymell y gwasanaeth hwn i ffrind neu aelod o'r teulu, oherwydd rwy'n teimlo ein bod yn gofalu am ddefnyddwyr gwasanaeth nad ydynt yn deulu na ffrindiau yn union fel y byddem eisiau i'n teulu a'n ffrindiau gael eu gofalu amdanynt."*

## Arolygu gwasanaethau cofrestredig

Fe wnaethom archwilio **1,087** o wasanaethau oedolion.

Mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gwneud yn dda. Lle nad oedd pethau'n gweithio, fe wnaethom roi cyngor neu gymryd camau i'w helpu i wella.

### Iechyd meddwl a gofal cyd-gysylltiedig

Fe wnaethom wirio pa mor dda mae timau iechyd meddwl oedolion ac anabledd dysgu yn gweithio gyda'i gilydd. Cafwyd ymrwymiad cryf gan staff, ond fe wnaethom weld rhai meysydd sydd angen gwaith — fel sicrhau bod gofalwyr yn cael eu cefnogi a bod lleisiau pobl yn cael eu cynnwys mewn cynlluniau gofal.

## Delio â phryderon

Cawsom **1,587** o bryderon gan bobl ynghylch gofal i oedolion. Roedd y rhain yn ymwneud yn bennaf gyda'r canlynol:

- Arweinyddiaeth a sut y caiff gwasanaethau eu rheoli
- Sut mae pobl yn cael gofal o ddydd i ddydd
- Staff yn codi materion yn eu gweithle

Fe wnaethom ni edrych i mewn i bob pryder. Weithiau fe wnaethom siarad â'r darparwr neu sefydliadau eraill. Mewn **90** o wasanaethau, fe wnaethom ni gynnal archwiliadau yn gynharach oherwydd yr hyn y dywedwyd wrthym.

Cawsom dros **26,000** o negeseuon am faterion hefyd. Mae'r rhain i gyd yn ein helpu i wybod ble i ganolbwyntio ein harolygiadau.

## Gwella gwasanaethau

Eleni:

- Fe wnaethom ni ganfod bod angen gwella **300** o wasanaethau.
- Fe wnaethom ni roi **195** o Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth. Mae'r rhain yn golygu bod angen atgyweirio rhywbeth ar frys.
- Fe wnaeth y rhan fwyaf o wasanaethau welliannau yn gyflym.
- Roedd angen gweithredu mwy difrifol ar **9** gwasanaeth, gan gynnwys pedwar cartref gofal yn cael eu cau.



## Beth sy'n mynd yn dda

- Mae rhai gwasanaethau'n mynd i'r afael ag unigrwydd gyda gweithgareddau grŵp a chymorth creadigol.
- Mae cynghorau lleol yn defnyddio syniadau newydd fel "cysylltwyr cymunedol" a "rhwydweithiau lles" i roi'r gefnogaeth mae pobl angen yn gynt.
- Mae rhai cartrefi gofal yn dysgu Cymraeg ac yn dathlu diwylliant lleol gyda thrigolion.

# Gwella ansawdd ein gwaith

Mae gwella sut rydym ni'n gweithio yn bwysig i ni, felly eleni fe wnaethom ni wneud y canlynol:

- gweithio ar wneud arolygiadau yn haws i'w deall
- rhoi adborth gwell, cliriach i wasanaethau ar ôl archwiliadau
- gwirio bod ein hadroddiadau ysgrifenedig yn ddefnyddiol ac yn hawdd eu darllen
- cefnogi ein harolygwyr i ddatblygu eu sgiliau a thrin pawb gyda pharch.

# Diolch am ddarllen hwn

Gallwch ddysgu mwy am pwy ydym ni a'r hyn a wnawn yma:

arolygiaethgofal.cymru

# Edrych ymlaen

Nawr rydym ni'n paratoi ar gyfer **cynllun strategol** 5 mlynedd newydd. Mae'n adeiladu ar yr hyn rydym ni wedi'i wneud yn dda ac mae'n cadw pobl wrth wraidd popeth rydym ni'n ei wneud.

**Byddwn ni'n parhau i weithio i wneud gwasanaethau gofal yng Nghymru yn ddiogel, yn garedig ac yn well i bawb.**

